Creu Bwrdd 'Foosball'

Beth fydd angen:


- Bocs esgidiau
- Papur gwyrdd
- Pen i wneud marciau maes
- Siswrn
- 4 rod dowel pren
- 10 peg pren
- Paent (2 lliw gwahanol)
- Pren mesur
- Pêl bwrdd tennis





Beth i wneud:

1. Tynnwch dop y bocs esgidiau i ffwrdd
2. Rhowch y bocs ar ddarn o bapur gwyrdd. Ewch o gwmpas gwaelod y bocs ar y papur gyda phen a thorrwch y petryal allan.
3. Ar y darn o bapur gwyrdd tynnwch lun o farciau maes pêl-droed.
4. Gludiwch y papur gwyrdd gyda'r marciau tu fewn i'r bocs esgidiau i greu maes chwarae.
5. Gallwch addurno tu fewn neu du fas y bocs i greu cynulleidfa.
6. Ar ochrau byr y bocs esgid mesurwch a thynnwch lun y gôl - yn gwneud yn siŵr bod nhw'n ddigon uchel i'r bêl fynd trwyddo. (Dyle petryal maint 5cm x 10cm gweithio, ond yn dibynnu ar faint eich bocs).
7. Torrwch y gôls allan.
8. Ar ochr hir y bocs tynnwch lun llinell lorweddol, digon uchel i'r bêl mynd o dan ac i'r pegiau i symud yn iawn bryd wedi atodi i'r rod dowel pren.
9. Ar y llinell mesurwch 4 pwynt gyda bwlch cyfartal a gwnewch dwll ym mhob pwynt (digon mawr i'r rod dowel pren i fynd trwyddo).
10. Gwnewch gam 8 a 9 ar ochr hir arall y bocs. Yn gwneud yn siŵr bod y tyllau yn rhesi lan yn gywir i'r ochr arall.
11. Paentiwch y rod dowel pren - 2 yn un lliw a 2 yn lliw gwahanol (lliwiau tîm).
12. Rhowch y rod dowel pren trwy'r tyllau.
13. Paentiwch y pegiau (lliwiau tîm, fel cam rif 11) a chlipio nhw i'r rod dowel pren cywir.
14. Ffeindiwch ffrind, gollwng y bêl bwrdd tennis yn y canol, a bant a chi!



TAGIWCH NI YN EICH LLUNIAU!

TAG US IN YOUR PICTURES!

menter iaith Castell-nedd Port Talbot

Cyswllt: 07849139353 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176